OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2571 (Cy.282)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Pysgod Môr (Ardaloedd Môr Penodedig) (Gwahardd Dull Pysgota) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - 10 Hydref 2012
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 11 Hydref 2012
Yn dod i rym - - 1 Tachwedd 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 5(1) ac (1B), 5A(1) ac 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio(**2**) ynddynt.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgod Môr (Ardaloedd Môr Penodedig) (Gwahardd Dull Pysgota) (Cymru) 2012 a daw i rym ar 1 Tachwedd 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardaloedd môr penodedig" ("*specified sea areas*") yw'r ardaloedd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfesuryn" ("*co-ordinate*") yw cyfesuryn lledred a hydred wedi ei roi mewn graddau, munudau a ffracsiynau degol o funud ar System Geodetig y Byd 1984;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**); ac

ystyr "offer pysgota sy'n llusgo'r gwaelod" ("*bottom towed fishing gear*") yw unrhyw offer neu gyfarpar pysgota a all gael eu llusgo, eu tynnu neu eu symud ar hyd gwely'r môr gan

(**1**) 1967 p.84.
(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y swyddogaethau a oedd yn arferadwy o dan adran 5 o Ddeddf 1967 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny a oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) 2006 p.32.

gynnwys unrhyw lusgrwyd bysgota, treillrwyd drawst neu dreillrwyd estyllod, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Gwaharddiad

3.—(1) Mae pysgota am bysgod môr o fewn yr ardaloedd môr penodedig gan ddefnyddio offer pysgota sy'n llusgo'r gwaelod drwy hyn wedi ei wahardd.

(2) Pan fo unrhyw gwch pysgota o fewn yr ardaloedd môr penodedig rhaid i'r holl offer pysgota sy'n llusgo'r gwaelod fod wedi eu stowio a'u diogelu y tu mewn i'r cwch.

Dirymu a Diwygiad Canlyniadol

4.—(1) Mae Is-ddeddf 21 (Gwahardd Offer Pysgota sy'n Llusgo'r Gwaelod)(**4**) cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru(**5**) wedi ei dirymu o ran Cymru.

(2) Yn y Tabl yn Atodlen 4 i Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010(**6**) mae'r rhes sy'n ymwneud ag Is-ddeddf 21 wedi ei dileu.

Alun Davies
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

10 Hydref 2012

(**4**) O 1 Ebrill 2010, mae Is-ddeddf 21 cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru yn cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol o ran yr un ardal o Gymru â'r ardal yr oedd yr is-ddeddf honno yn gymwys iddi yn wreiddiol yn rhinwedd erthygl 13(3) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C.42)) ac Atodlen 4 iddo.

(**5**) Diddymwyd Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru, o ran Cymru, ar 1 Ebrill 2010 pan ddygwyd adran 187 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23) i rym gan erthygl 3 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C.42)), â'r effaith o ddiddymu Deddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 (p.38).

(**6**) O.S. 2010/630 (C.42).